## NPT08 – Nifer o brosiectau a anelir at welliant amgylcheddol / cynaliadwyedd

Adnewyddu Hwb y Gors

Nod yr adnewyddiad hwn y bod yn waith adeiladu carbon-sero.

Yn ystod y prosiect rydym wedi gosod paneli solar ar Hwb y Gors, wedi defnyddio technegau adeiladu cynaliadwy fel morter calch a chladin mewnol o gorc, ynghyd â phren eco. Mae'r gwaith o osod pympiau gwres daearol wedi cychwyn, a fydd yn galluogi'r adeilad i gael i wresogi mewn dull carbon-sero fel gwres tanddaearol ar gyfer yr adeilad. Mae'r mesurau hyn er mwyn gostwng yr ôl troed carbon mor isel ag y gallwn ei gael! Bydd canolfan ynni / ystafell beiriannau a fydd yn bwydo i sgriniau y tu mewn i Hwb y Gors, ble gellir gweld faint o ynn sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio! Yn y tymor hir, fel rhan o'r cynlluniau cynnig trafnidiaeth, bydd y pwynt gwefru cerbydau trydan (EV) yn cael ei bweru gan y paneli solar. Yn ystod fy nghyfnod yn y swydd, rydym wedi derbyn un o'r ceir a'r beics ac rwyf wedi bod yn hybu'r defnydd o geir trydan a rhannu ceir, ac wedi dechrau siarad am hyn gyda'r gymuned. Maen nhw'n llawn cyffro ynghylch y cynlluniau.

Rwyf wedi bod yn ymchwilio'r ffordd orau i sefydlu clwb rhannu ceir. Roeddwn yn allweddol wrth helpu i gefnogi'r grant £500,000 gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer cynllun 'Gwefru Cymru' a fydd yn gynllun ceir Cowheels Cymru gyfan. Dylai hwn lansio yn ystod gwanwyn 2022. Mae manylion y cynllun ac unrhyw gynlluniau'n HOLLOL GYFRINACHOL ar hyn o bryd, ac mae'r cynllun wrthi'n cael ei ddatblygu, Mae 7 clwb cychwynnol yn cymryd rhan, ond rwyf wedi fy nghyfyngu o ran pwy y gallaf eu crybwyll ar hyn o bryd. Mae sefydliadau'n cynnwys AAT, Ynni Cymunedol Cymru, TryadaNi. Bydd y cynllun yn cael ei fonitro er mwyn dysgu gan CoMo UK. Cyflogir rheolwr prosiect gan Ynni Cymunedol Cymru i gyflwyno'r cynllun. Mae'r clybiau'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar lein i drafod proffil cychwynnol rôl y rheolwr prosiect, ac rwyf innau'n bwydo i mewn i hynny. Bydd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ac maent yn y dyddiadur. Gweler ragor o fanylion yn y datganiad diweddar hwn i'r wasg: Major Funding Boost for Green Car Clubs Across Rural Wales - Business News Wales https://businessnewswales.com/major-funding-boost-for-green-car-clubs-across-rural-wales/

**Mae CoMoUK (Comobility UK) yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o symud y DU i atebion symudedd integredig a gynlluniwyd er budd y cyhoedd.*

.